# YMWELIADAU SAFLEOEDD CYNLLUNIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi, 2016

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd R.O. Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jeff M. Evans, John Griffith, T.V. Hughes, Vaughan Hughes, W.T. Hughes (ar gyfer cais 1 yn unig). |
| **WRTH LAW**: | Swyddog Cynllunio (GJ),<br>Swyddog Priffyrdd (JAR). |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Dim wedi eu derbyn. |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Neb |

---

**1. 44C102A – Cais amlinellol i godi annedd gyda'r holl faterion wedi eu cadw'n ôl ar dir y tu cefn I Hazelbank, Rhosybol**

Rhoes y Swyddog Cynllunio gyflwyniad ac eglurodd y byddai'r fynedfa bresennol yn cael ei defnyddio ar gyfer y datblygiad.

Eglurodd y Swyddog Priffyrdd y byddai'r wal bresennol yn cael ei gostwng 1 metr am y 2 fetr gyntaf fel y gellid sicrhau'r gwelededd angenrheidiol.

Yna, rhoes y Swyddog Cynllunio gyflwyniad ar y safle arfaethedig ac eglurodd mai'r agymhelliad oedd gwrthod oherwydd ystyriwyd bod y datblygiad yn un 'tandem'.

Gofynnwyd am esboniad ynghylch ffin safle'r cais.

Gofynnwyd cwestiynau pellach ynghylch a fyddai'r adeiladau cyfredol yn cael eu dymchwel. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddogion y byddant yn cael eu dymchwel, fodd bynnag, nid oedd hynny'n rhan o linell goch y safle datblygu.

**2. 17C226G – Cais llawn i wneud gwaith altro ac ehangu yn Gernant, Llandegfan**

Rhoes y Swyddog Cynllunio gyflwyniad ac esboniad byr o hanes y safle. Dangoswyd estyniadau blaenorol i'r aelodau ac eglurwyd yr estyniad newydd arfaethedig.

Gofynnwyd am esboniad a fyddai'r garej yn cael ei dynnu allan oherwydd byddai'n lleihau cynnydd canrannol yr estyniadau. Eglurodd y Swyddog Cynllunio bod y garej yn rhan o'r cynnig.

**Y CYNGHORYDD R.O. JONES**
**IS-GADEIRYDD YN Y GADAIR**